# Teulu'r Croop/The Croop Family

Ym 1903, sefydlodd Solomon Krupp y Cwmni Dodrefn Progressive yn Llandudno. Gadawodd Solomon a'i frawd, Philip, Lithwania am Norwy i ddianc rhag gorfodaeth filwrol i Fyddin Rwsia. Penderfynodd Philip fynd ymlaen i Loegr, gan ddod yn wydrwr ym Manceinion cyn dod o hyd i waith tebyg yn Llandudno. Ymwelodd Solomon ag ef a phenderfynodd aros oherwydd ei fod yn ei atgoffa o Norwy. Ym 1921, Seisnigodd Solomon ei gyfenw o Krupp i Croop. Roedd ei siop yn gwerthu dodrefn, ffabrig a charpedi.



*Solomon Croop, tua 1935. Delwedd trwy garedigrwydd Steven Kramrisch.*
*Solomon Croop, circa 1935. Image courtesy of Steven Kramrisch.*

Bu farw Solomon ym 1964 a throsglwyddwyd y busnes i'w fab Israel (Izzy). Yn ogystal â bod yn aelod blaenllaw o Gynulleidfa Hebraeg Llandudno, bu Izzy hefyd yn gwasanaethu ar Siambr Fasnach Llandudno, yn Saer Rhydd amlwg ac yn is-lywydd Clwb Criced Llandudno.

Dechreuodd mab Izzy, Bernard, weithio i fusnes y teulu pan oedd yn ei arddegau, gan gasglu taliadau wythnosol yn y trefi a'r pentrefi cyfagos.

Caeodd y busnes ar ôl marwolaeth Izzy ym 1971, ac ymfudodd Bernard i Israel ym 1978.




*Credyd delwedd: beinghumanfestival.org.*
*Image credit: beinghumanfestival.org.*

Mae Bernard yn dal i deimlo cysylltiadau cryf â'i gartref:

*"Felly pan ofynnir i mi am fy nghefndiroedd, beth rwy'n ei deimlo? Rwy'n Gymro. Rwy'n falch iawn oherwydd bod llawer o debygrwydd rhwng y bobl Iddewig a'r Cymry… Ydw i'n teimlo'n Iddewig? Ydw i'n teimlo'n Saesnig? Na, na, rwy'n teimlo'n Gymro yn gyntaf oll."*

In 1903, Solomon Krupp founded the Progressive Furnishing Company in Llandudno. Solomon and his brother, Philip, left Lithuania for Norway to escape conscription into the Russian Army. Philip became a glazier and found work in Llandudno. Solomon visited him and decided to stay because it reminded him of Norway.

In 1921, Solomon anglicised his surname from Krupp to Croop. His store sold furniture, fabric and carpets.

Solomon died in 1964, and the business passed to his son Israel (Izzy), who became a prominent local businessman. Izzy's son, Bernard, began working for the family business as a teenager, making the weekly payment collections in the surrounding towns and villages.

The business closed after Izzy died in 1971, and Bernard emigrated to Israel in 1978.

Bernard still feels strong links to his home:

*"So when I'm asked of my backgrounds, what do I feel? I'm Welsh. I'm very proud because there are a lot of similarities amongst the Jewish people and the Welsh… Do I feel Jewish? Do I feel English? No, no, I feel Welsh first of all."*



*Merch Solomon, Celia, gyda'i hail ŵr Daniel Langley a'u merched, Sylvia a Judith (yn penlinio). Lladdwyd gŵr cyntaf Celia, Eli Fine, yn ystod yr Ail Ryfel Byd. Roedd Daniel yn rhedeg siop gemwaith, D. Langley, yn 106b Stryd Mostyn am flynyddoedd lawer.*

*Solomon's daughter, Celia, with her second husband Daniel Langley and daughters, Sylvia and Judith (kneeling). Celia's first husband, Eli Fine, had been killed during WWII. Daniel ran a jewellery shop, D. Langley, at 106b Mostyn Street for many years.*

JHAW CHIC

Rydym yn ddiolchgar i ymddiriedolwyr Cronfa Marc Fitch am grant tuag at gostau'r prosiect hwn.
We are grateful to the trustees of the Marc Fitch Fund for a grant towards the costs of this project.

MARC FITCH FUND

PRIFYSGOL BANGOR UNIVERSITY

Gyda diolch i Brifysgol Bangor am eu cymorth.
With thanks to Bangor University for their assistance.